# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b. DYDD IAU, 13EG GORFFENNAF, 2023**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**NODER: Cynhelir sesiwn briffio i'r aelodau am 10:15yb**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon**

**Ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd, 5 Gorffennaf 2023)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Elin Hywel
Edgar Wyn Owen
Beca Roberts
Delyth Lloyd Griffiths
Kim Jones
Llio Elenid Owen
Rhys Tudur
Annwen Hughes
Linda Morgan
Arwyn Herald Roberts

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Elfed Powell Roberts
Rob Triggs
Gwilym Jones
Peter Thomas
Gruffydd Williams

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2023-2024.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2023-2024.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2023 fel rhai cywir.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 2022-23** 10 - 14

Adolygu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2022-23.

**8. DIWEDDARIAD - DATBLYGIADAU YN Y MAES CLUDIANT CYHOEDDUS** 15 - 27

Diweddaru'r Pwyllgor am y gwaith wrth law er ystyriaeth yr aelodau.

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24** 28 - 31

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 i'w mabwysiadu.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 09 MAWRTH 2023**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Elin Hywel (Cadeirydd)
Kim Jones (Is-Gadeirydd)

Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Gwilym Jones, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Arwyn Herald Roberts, Elfed Powell Roberts, Peter Thomas, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones ac Eirian Roberts (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth) ac Ellie Evans (Cynorthwywr Gweinyddol Gwasanaeth Democratiaeth)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Heledd Jones (Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn))

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd).

1. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Robert Glyn Daniels, Linda Morgan, Beca Roberts a Rob Triggs.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

4. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023, fel rhai cywir.

5. **CYFLWYNO CYFARWYDDYD ERTHYGL 4 I REOLI'R DEFNYDD O DAI FEL AIL GARTREFI A LLETY GWYLIAU TYMOR BYR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd ac Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwyned a Môn). Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Atgoffwyd yr aelodau bod tri dosbarth defnydd newydd bellach wedi dod i rym, sef:
  - C3 – Prif Gartref
  - C5 – Ail Gartref Eilaidd
  - C6 – Llety Gwyliau
- Cadarnhawyd bod perchnogion tai yn gallu newid dosbarth defnydd eu tai heb gais cynllunio a byddai cyfarwyddyd Erthygl 4 yn rheoli hyn, drwy ychwanegu'r orfodaeth i wneud cais cynllunio cyn newid dosbarth defnydd eu tai.
- Pwysleisiwyd bod cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ddull o reoli stoc dai oddi fewn ardaloedd, a thrwy hynny hwyluso gallu pobl leol gael tai o fewn eu cymunedau.
- Adroddwyd bod y broses o gyflwyno'r cyfarwyddyd yn newydd a digynsail a chadarnhawyd bod yr adran yn y broses o dderbyn cyngor cyfreithiol ar gyfer y gwahanol agweddau o'r broses.
- Eglurwyd ni fyddai cyfarwyddyd Erthygl 4 yn berthnasol i ardal awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Er hyn, mae swyddogion yr adran yn cydweithio yn agos gyda'r Parc i rannu buddion/profiadau.
- Adroddwyd bod cynnydd wedi bod mewn niferoedd yn trosglwyddo o fod yn uned breswyl i fusnes llety gwyliau gan dalu treth annomestig.
- Nodwyd bod ystyriaeth wedi cael ei roi i gyfres o opsiynau ardaloedd cyn i'r swyddogion dod i gasgliad ar y ffordd gorau o gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 sef:
  - Opsiwn 1: Dwyfor (ardal beilot y Llywodraeth)
  - Opsiwn 2: Ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref/Dinas ble fo'r ddarpariaeth bresennol o gartrefi gwyliau yn fwy na 15% o'r stoc dai
  - Opsiwn 3: Ardaloedd Bregus (ardaloedd sydd dan fygythiad)
  - Opsiwn 4: Gwynedd gyfan (Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd).
- Cadarnhawyd bod gwaith ymchwil y swyddogion yn awgrymu mai'r opsiwn a ffafrir i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 ydi Gwynedd gyfan (Opsiwn 4). Er hyn, nodwyd nad oes modd bod yn sicr o oblygiadau ar yr ardal. Tybiwyd mai dyma'r opsiwn symlaf ymlaen gan na fyddai amheuaeth o ba ardaloedd sy'n disgyn o dan reolaeth y cyfarwyddyd – oni bai am ardaloedd o dan reolaeth cynllunio ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Nododd aelod ei fod yn falch bod argymhelliad clir ond yn pryderu am yr effaith bosib ar ardaloedd o dan y trothwy gormodedd o ail gartrefi a llety gwyliau o 15% o'r stoc dai.

Eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd na fyddai gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 yn newid polisïau cynllunio ac mai polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, fydd dal yn weithredol yn dilyn cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4.

Mewn ymateb i ymholiad am ddiffiniad o 'ail gartrefi a llety gwyliau', adroddodd Bennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd nad oes polisi penodol ar gyfer llety gwyliau ac ail gartrefi. Er hyn, eglurwyd bod cymal ym Mholisi TWR 2 yn sicrhau na fydd caniatâd cynllunio yn cael ei ganiatáu os yw'n amharu ar stoc dai Gwynedd. Sicrhawyd bod pob cais yn cael ei ddelio ar ei rinweddau unigol ac felly nid oes modd cadarnhau bod y cymal hwn ym Mholisi TWR 2 yn mynd i atal pob cais cynllunio sy'n effeithio ar y stoc dai. Pwysleisiwyd hefyd fod posibilrwydd y byddai ymgeiswyr yn apelio penderfyniadau ar sail y cymal. Cytunwyd, y byddai'n fuddiol i ymhelaethu ar yr arweiniad yn y Canllaw Cynllunio Atodol (Cyfleusterau a llety i dwristiaid) os yw'r Cabinet yn cadarnhau bwriad i weithredu ar gyfarwyddyd Erthygl 4

Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol i ddiwygio geiriad Polisi TWR 2 i gynnwys 'ail gartrefi', cadarnhaodd Aelod Cabinet Amgylchedd byddai hyn yn ystyriaeth wrth i Gynllun Datblygu Lleol newydd gael ei ddatblygu.

Mewn ymateb i ymholiad atodol, cadarnhawyd gan Bennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd bod y term 'gormodedd' yn cael ei ddiffinio yng Nghanllaw Cynllunio Atodol - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid.

Mewn ymateb i ymholiad atodol, cadarnhawyd gan Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) nad yw llety gwyliau yn cael eu cynnwys oddi fewn y diffiniad o 'stoc dai'. Nodwyd fod y polisi wedi cael ei lunio cyn cyflwyno y deddfwriaeth cynllunio newydd a chan hynny nid oedd yn bosib (ar yr amser) i wahaniaethu rhwng y defnyddiau.

Nododd aelod bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb i alwadau ymgyrchwyr ond wedi creu mwy o fiwrocratiaeth. Roedd rhaid gwneud y gorau o'r sefyllfa. Cyfeiriodd at ffynhonellau ariannu er mwyn plismona'r newidiadau a'r angen am adnoddau staffio. Nododd drwy weithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd y byddai effaith ar ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri, a'i fod yn mawr obeithio y byddai cyfarwyddyd yn weithredol drwy'r sir i gyd.

Mewn ymateb i ymholiad ar amseru'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd a materion cyfarwyddyd Erthygl 4, eglurodd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd bod Cynghorau Gwynedd a Môn wedi penderfynu peidio gweithredu ar y cyd gyda pholisïau cynllunio yn y dyfodol. Oherwydd hyn, ac fel yr eglurwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet, mae oediad wedi bod i'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

O safbwynt pryderon a godwyd am adnoddau, pwysleisiwyd bod proses creu pecyn recriwtio swyddog i gynorthwyo gyda gweithrediad y Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi cychwyn.

Holodd aelod am yr amserlen, mewn ymateb nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd y bwriedid cyflwyno adroddiad ar yr opsiwn a ffafrir i'r Cabinet yn Ebrill/Mai gyda'r cam nesaf, os cymeradwyir, i gynnal ymgynghoriad.

Mewn ymateb i ymholiad ar sut bydd y cyfarwyddyd yn cael ei weithredu, adroddodd Aelod Cabinet Amgylchedd bod cefnogaeth ariannol yn cael ei ddarparu gan y Llywodraeth. Cydnabuwyd mai prif sialens yr adran wrth weithredu'r cyfarwyddyd bydd i benodi swyddogion. Eglurwyd bod prosesau recriwtio cyffredinol yn heriol iawn ar hyn o bryd ond mae'r adran yn gweithredu er mwyn denu swyddogion – gyda'r trefniadau yn cynnwys arfarnu swyddi yn dilyn adolygu disgrifiadau swyddi, datblygu pecyn recriwtio, cyflogi hyfforddai cynllunio oddi fewn system Cynllun Yfory ac mae'r Gwasanaeth yn rhan o brosiect Cynllunio Gweithlu'r Cyngor. Ymhelaethodd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd ei bod yn anodd rhagweld yn union faint o swyddogion bydd angen eu penodi er mwyn gweithredu'r cyfarwyddyd, gan ragrybuddio ( er trefniadau sydd ar waith) y gall recriwtio fod yn heriol. Manylwyd bod y Llywodraeth yn datgan bwriad i ddarparu arian ar gyfer y Ardal Dwyfor (sef ardal peilot y Llywodraeth) gyda gwaith t, ond bod y Cyngor hefyd yn cyfrannu'n ariannol gyda bid un-tro wedi ei gyflwyno er mwyn gallu cyflwyno'r cyfarwyddyd i ardaloedd eraill yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd .

Mewn ymateb i ymholiad atodol, cydnabuwyd gan Bennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd bod sialensiau ariannol ychwanegol yn gallu deillio o gyfarwyddyd Erthygl 4, megis heriau cyfreithiol. Er hyn, manylwyd bod yr adran wedi gwneud ceisiadau am arian ychwanegol a gobeithir bydd unrhyw her gyfreithiol yn gallu cael ei ariannu drwy gyllideb hyn.

Cyfeiriwyd at dabl yn yr adroddiad a oedd yn cyflwyno trosolwg bras o'r camau angenrheidiol fyddai angen eu cymryd ynghyd a gosod amserlen fras ar gyfer cyflawni'r camau. Eglurodd Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) y disgwylid am arweiniad cyfreithiol o ran cydymffurfio gyda'r gofyn i rybuddio'r sawl a effeithir a'r gofyniad o osod rhybudd.

Eglurwyd gan Aelod Cabinet Amgylchedd nad oedd casgliadau'r swyddogion yn cynnwys unrhyw ardal o fewn tiriogaeth Parc Cenedlaethol Eryri oherwydd mae gan y Parc ei reolaeth cynllunio annibynnol. Yn ogystal â hyn, mae rhannau o'r Parc wedi ei leoli yng Nghonwy.. Ymhelaethwyd gan Bennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd bod yr Adran yn cydweithio yn agos gyda'r Parc drwy gydol y broses er mwyn eu hannog i gyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 eu hunain. Eglurwyd bod swyddogion y Parc angen cysidro eu hadnoddau a'r amrywiol effeithiau cyn cyflwyno'r cyfarwyddyd.

Nodwyd gan nifer o aelodau bod y ganran a ystyrir fel gormodedd o lety gwyliau wedi newid i fwy na 15% o'r stoc dai, ac mai 10% oedd y ffigwr hwn yn y gorffennol. Mewn ymateb i ymholiad pam bod y newid hwn wedi digwydd, eglurwyd gan Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) bod swyddogion wedi edrych ar Canllawiau Cynllunio Atodol blaenorol a oedd mewn defnydd gyda Chynllun Datblygu Lleol Unedol. Wrth ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol newydd, fe oedd yn ategu'r canllawiau a oedd eisoes yn bodoli er mwyn creu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ymhelaethwyd pan fo'r ffigwr blaenorol o 10% yn weithredol ystyriwyd ail gartrefi a llety gwyliau ar wahân, ble mae'r ffigwr o 15% yn cynnwys ail gartrefi a llety gwyliau. Cadarnhawyd bod swyddogion wedi cysidro ardaloedd sydd â chanran o 15% neu uwch er mwyn ystyried os yw'r trefniant newydd yn effeithiol a theg.

Rhannwyd pryder gan nifer o aelodau bod y rhicyn gorddarpariaeth o ail gartrefi a llety gwyliau o 15% o dai'r ardaloedd yn rhy uchel mewn rhai cymunedau ac yn gallu achosi sefyllfaoedd ble mae mwy o dai gwyliau ar gael mewn rhai ardaloedd na'r sefyllfa bresennol. Gofynnwyd i swyddogion ail ystyried newid y rhicyn perthnasol i lawr i 10% ar gyfer Gwynedd gyfan.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
- **Argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo yr opsiwn a ffafrir o ran cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, sef 'Opsiwn 4: Gwynedd gyfan (Ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd)'.**
- **Gofyn i'r swyddogion polisi cynllunio ail-edrych ar y trothwy y diffinnir gorddarpariaeth o lety gwyliau ac ail gartrefi mewn cymunedau, yn ystod y broses o lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd.**

**6. GLENDID STRYD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Pennaeth Adran Priffyrdd Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd a'r Pennaeth Cynorthwyol. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd bod y gwasanaeth glanhau strydoedd yn weithredol ar bob safle ffordd gyhoeddus a ffordd fabwysiedig gan y Cyngor. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu i barthau yn unol â'u defnydd:
    - Parthau dwysedd defnydd uchel – canol trefi yn bennaf
    - Parthau dwysedd defnydd canolig – ardaloedd preswyl yn bennaf
    - Parthau dwysedd defnydd canolig – ardaloedd llai dwys megis ffyrdd Sirol gwledig.
- Cadarnhawyd bod y gwasanaeth casglu ac ailgylchu gwastraff wedi trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd yn ddiweddar ac mae hyn wedi rhoi cyfle i swyddogion ail edrych ar sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei gyflwyno. Mae'r gwasanaeth tacluso yn parhau o dan reolaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd.
- Eglurwyd bod adolygiad o'r gwasanaeth wedi cael ei gynnal. Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod gwaith y gwasanaeth yn dda iawn ond mae materion cyllidol ac iechyd a diogelwch i'w cyfarch. Adroddwyd bod amserlen wedi ei osod ar gyfer cyfarch cylchdeithiau yn y dull mwyaf effeithlon erbyn diwedd yr haf.

- Manylwyd bod 'Cadw Cymru'n Daclus' yn cynnal arolwg annibynnol blynyddol ar lendid strydoedd.
- Esboniwyd bod yr adran yn cynnal treialon biniau clyfar. Mae 5 bin o fewn y treial ac maent yn defnyddio ynni solar a thechnoleg fodern i wneud cais i'w wagio yn awtomatig i'r adran pan maent yn llawn.
- Trafodwyd bod addysgu plant a phobl Gwynedd, yn ogystal ,â chodi ymwybyddiaeth o effeithiau ysbwriel, yn rhan o broses newid ymddygiad er mwyn cyflawni buddion amgylcheddol yn y tymor hir.
- Adroddwyd ar fwriad yr Adran i gyfuno gwasanaethau glanhau stryd, elfennau gorfodaeth a'r timau tacluso i un gwasanaeth newydd o'r enw Edrychiad Stryd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:

Mewn ymateb i ymholiadau gan aelodau, cadarnhaodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd bod timau gorfodaeth yn wynebu trafferthion capasiti ar hyn o bryd sy'n arwain at oediad mewn gosod biniau baw cŵn newydd ar ôl i'r adran dderbyn ceisiadau. Er hyn, cadarnhawyd bod y Timau Tacluso yn anelu i ddosbarthu biniau mor fuan â phosibl gan gadarnhau mai cyfanswm cyfyngedig o finiau sydd yn cael eu cadw ym meddiant y Cyngor.

Nododd aelod bod rhai unigolion yn taflu sbwriel allan o'u ceir. Holodd a fyddai'n bosib bod yn fwy rhagweithiol yn y llefydd roedd hyn yn broblem gyson e.e. cilfannau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Adran y gellir edrych ar y lleoliad a grybwyllwyd gan yr aelod i dreialu trefniant o'r fath.

Holodd aelod os oedd cymhariaeth o'r costau ynghlwm â chlirio sbwriel a gwagio bin wedi ei wneud. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Adran ei fod yn fater i'w gynnwys fel rhan o'r adolygiad.

Mewn ymateb i ymholiad ar y sialensiau o atal llygredd, nododd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd bod bwriad i benodi Swyddog Cyfathrebu er mwyn addysgu pobl o effeithiau llygru. Gobeithir i'r swyddog yma gael ei benodi erbyn y Pasg.

Rhoddwyd ystyriaeth am gyfrifoldebau unigolion i sicrhau bod eu cyfarpar ailgylchu yn gyfan i sicrhau nad ydi gwastraff yn cael ei chwythu i ffwrdd cyn ei gasglu.

Mewn ymholiad am gydweithio â chwmnïau mawr er mwyn canfod ffyrdd i leihau gwastraff, adroddwyd gan Bennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd bod cysylltiad agos gyda chwmnïau wedi bod yn y gorffennol. Erbyn hyn, mae'r cysylltiadau hyn wedi dod i ben ond bod bwriad i feithrin cysylltiadau cryfach gyda chwmnïau mawr sydd yn yr ardal yn y dyfodol.

Rhoddwyd ystyriaeth os yw sbwriel yn cael ei ollwng o loriau ailgylchu yn ystod cylchdeithiau gan nad ydi'r drysau yn cael eu cau rhwng casgliadau. Cadarnhaodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd y byddai hyn yn cael ei drafod gyda'r timau.

Trafodwyd effeithlonrwydd peilot y biniau clyfar. Mewn ymateb i ymholiad, mynegodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd bod y peilot mewn camau cychwynnol ac nad oedd modd asesu ei effeithlonrwydd ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bydd gan yr adran mwy o ddealltwriaeth o ganlyniadau'r peilot wrth iddo barhau.

Drwy gydol y drafodaeth diolchwyd i staff y gwasanaeth am eu gwaith da maent wedi ei gwblhau gan dynnu sylw penodol at rhai ardaloedd. Cadarnhaodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd byddai diolchiadau a gwerthfawrogiad yr aelodau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r holl dimau.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 12:45yp

________________________________________

CADEIRYDD

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad** | **13fed Gorffennaf 2023** |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2022-23 |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Pwrpas** | Adolygu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2022-23 |

**1.0 Cyflwyniad a chyd-destun**

**1.1** Dyma gyflwyno adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn ar gyfer 2022-23. Y flwyddyn hon oedd blwyddyn olaf ein Cynllun Llesiant 2018-23. Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gennym fel Bwrdd i wella llesiant ein cymunedau yn ystod y cyfnod 2022-23.

**1.2** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Hefyd, sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus allweddol. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

**1.3** Rydym bellach ym mlwyddyn olaf Cynllun Llesiant 2017-22 ar gyfer Gwynedd a Môn, lle roedd y Bwrdd wedi blaenoriaethu chwe maes gwaith:

- Yr iaith Gymraeg;
- Tai i bobl leol;
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau;
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau;
- Iechyd a gofal oedolion a
- Llesiant a chyflawniad plant a phobl ifanc.

**1.4** Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y pum mlynedd i adlewyrchu'r gwaith sydd yn digwydd yn barod. Gan bod nifer o aelodau'r Bwrdd eisoes yn cydweithio i ymateb i'r materion hyn, cytunwyd mai rôl y Bwrdd felly fyddai i gadw trosolwg o'r gwaith a cheisio sicrwydd ein bod ni fel cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol. I ymdrin â'r blaenoriaethau sydd ar ôl, mae gan y Bwrdd ddau is-grŵp gweithredol ar hyn o bryd:

- ➢ Newid Hinsawdd
- ➢ Yr Iaith Gymraeg

**2.0 Beth sydd wedi ei gyflawni eleni:**

**2.1 Darparu Cynllun Llesiant 2023-28**
Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech ar Ynys Môn. Mae'r wybodaeth yn dod â data lleol,

negeseuon o waith ymgysylltu â chymunedau a gwaith ymchwil cenedlaethol ynghyd. Mae'r Llyfrynnau Gwybodaeth ar gyfer pob ardal ar gael ar ein gwefan.

Yn dilyn cyhoeddi yr Asesiadau Llesiant ym mis Mai 2022 defnyddiwyd hwy fel cyfeiriad i flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer llunio Cynllun Llesiant 2023-28. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol roedd naw prif neges yn cael eu hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan:

- Ymateb i dlodi a chostau byw
- Gwella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella iechyd a lles meddyliol
- Newid hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau net sero
- Hybu defnydd yr iaith Gymraeg
- Galluogi profiad cyfartal a mynediad i natur
- Cynllunio gweithlu i'r dyfodol sy'n ateb anghenion y gymuned a'r economi leol
- Sicrhau tai i bobl leol
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfres o weithdai pellach gydag Aelodau'r Bwrdd yn ystod 2022 ar sail y prif negeseuon a adnabuwyd er mwyn blaenoriaethu a thrafod sut y byddai modd ymateb i'r materion a amlygwyd. Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant, mae'r Bwrdd wedi adnabod ***tri Amcan Llesiant i gyd weithio arnynt yn y cyfnod 2023-2028****:*

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith* ***tlodi*** *ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein* ***plant a phobl ifanc*** *er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at* ***Sero Net Carbon****.*

Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, credwn fod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

Er nad yw'r iaith Gymraeg wedi ei hadnabod fel Amcan Llesiant penodol mae'n flaenoriaeth i'r Bwrdd a byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r **iaith Gymraeg** ym mhob maes o'n gwaith, ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg.

**2.2 Ymgynghoriad gyhoeddus at y Cynllun Llesiant 2023-28:**

Yn unol a gofynion y Ddeddf cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am gyfnod o 12 wythnos rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 6 Mawrth 2023. Darparwyd nifer o gyfleoedd i unigolion, grwpiau diddordeb a sefydliadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gynnal gweithdai a sesiynau gwybodaeth. Roedd hefyd holiadur ar gael ar wefan y Bwrdd neu gopïau papur oedd ar gael mewn prif swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd. Roedd modd gwneud cais am gopïau ar ffurf amgen.

Derbyniwyd 499 o ymatebion i'r holiadur fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda nifer o'r sylwadau yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei gynnig. Cafwyd adborth gan oddeutu 200 o unigolion ychwanegol drwy ymgysylltu megis gweithdai a sesiynau gwybodaeth a gynhaliwyd trwy Fforymau Pobl Hŷn, ymgysylltu gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo ym Mhwllheli, grŵp o bobl ifanc o GISDA, a chyflwyno i Grŵpiau Trydydd Sector, a Chynghorau Tref a Chymuned.

Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad ym Mhwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd. Hefyd bu sawl neges ar gyfrifon cymdeithasol y Bwrdd a rhannwyd rhain gan Aelodau eraill y Bwrdd ar eu cyfryngau hwy.

Rydym yn ffyddiog bod y Cynllun Llesiant bellach yn adlewyrchu nifer o'r sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriad a bydd y Bwrdd yn rhoi sylw i'r adborth i gyd eto dros y flwyddyn nesaf yn benodol wrth ddarparu Cynllun Cyflawni ar gyfer y meysydd blaenoriaeth.

**2.3 Newid Hinsawdd:**

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Sefydlwyd is-grŵp Newid Hinsawdd i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn enwedig effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar ein cymunedau. Rydym wedi adnabod yr angen i addysgu a gweithio gyda'n cymunedau i'w paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai sy'n ein wynebu i'r dyfodol. Y nod yw ceisio lliniaru'r effaith y mae unrhyw achos o dywydd eithafol yn ei chael ar y cymunedau hynny. Yn ystod y cyfnod clo, bu i nifer ohonom sylwi ar bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol - roeddem yn defnyddio llai ar ein ceir ac fe welsom effeithiau positif hynny ar ansawdd yr aer a dŵr.

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae'r is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u datblygu fel rhan o egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf drwy:

- ddeall anghenion y cymunedau penodol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer y **tymor hir**
- **gweithio gyda** nifer o gyrff cyhoeddus a'n cymunedau
- **cynnwys** ein rhan-ddeiliaid fel rhan hanfodol o waith yr is-grŵp

**2.4 Yr iaith Gymraeg**

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Mae'r Bwrdd yn deall pa mor bwysig yw'r iaith Gymraeg i'n cymunedau ledled Gwynedd a Môn, a'i bod yn rhan o wead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae medru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn y Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith o ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir. Fel cyrff cyhoeddus, rydym yn ceisio sicrhau bod y dinesydd yn parhau i ymgysylltu â cyrff cyhoeddus yn ei ddewis iaith, ac rydym yn parhau i fod yr un mor angerddol am gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Diweddariad ar y gwaith eleni**

Yn ystod 2022/23, comisiynwyd gwaith ymchwil i'r rhesymau pam fod pobl yn dewis defnyddio'r Gymraeg neu beidio wrth dderbyn gwasanaethau cyswllt cyntaf. Bwriad y gwaith ymchwil oedd:

- deall arferion ieithyddol y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau cyswllt cyntaf;
- deall yr heriau a'r rhesymau y tu ôl i unrhyw ddewis i beidio â gwneud defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- deall sut gallwn greu'r cyd-destun gorau posib er mwyn annog defnydd o Gymraeg wrth ddefnyddio'n gwasanaethau cyswllt cyntaf.

Canfyddiadau pwysicaf o'r ymarfer arsylwi oedd:

- bod cynnig rhagweithiol ar waith ym mhob derbynfa i ryw raddau, ond nad oedd hynny bob tro yn ddigon i annog defnydd o'r Gymraeg – roedd angen i'r defnyddwyr gwasanaeth glywed y Gymraeg er mwyn gwybod yn bendant bod y Gymraeg ar waith.

- mai cyfyng iawn yw'r cyfle i staff derbynfeydd wneud gwahaniaeth i ddewis iaith defnyddwyr gwasanaeth – dyma sy'n gosod gwir bwysigrwydd ar y cyfarchiad cyntaf gan y staff.
- bod canran uchel o'r rhyngweithiadau yn digwydd rhwng defnyddwyr gwasanaeth a staff oedd eisoes yn adnabod/yn gyfarwydd â'i gilydd.

Cynhaliwyd sesiynau i reolwyr, ar draws y sefydliadau a chafwyd diddordeb ar draws Gogledd Cymru. Mae **canllaw** wedi ei rannu sydd yn cynnwys rhestr o argymhellion i staff eu dilyn er mwyn annog defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'r pwyntiau yn cynnwys:

1. Deall dewis iaith - beth yw'r cefndir cryno sydd angen i bawb wybod.
2. Amgylchedd – y gwahaniaeth rhwng y gweledol a'r clywed, a gwir bwysigrwydd y clywedol.
3. Cyfarch – y pwysigrwydd o gyfarch y defnyddwyr gwasanaeth gan gymryd cyfrifoldeb am ddewis iaith.
4. Ymateb – sut i fod yn ymatebol mewn amrywiol sefyllfaoedd ac yn ddibynnol ar lefel sgiliau iaith y staff.
5. Cofnodi – pwysigrwydd cofio dewis iaith, fel nad yw defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn dro ar ôl tro.

Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn yn lleol ac yn rhanbarthol am y prosiect yma a rydym wedi ein hysgogi i ymgymryd a gwaith pellach i edrych ar arferion da a llunio argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn y flwyddyn nesaf. Mae'r Byrddau Gwasanaethau eraill ar draws y Gogledd yn awyddus i gydweithio gyda ni ar hyn ac mae'n debyg bydd swm o arian yn cael ei ddosrannu o'r Gronfa Rhanbarthol i ariannu'r gwaith.

**2.5 Meysydd Gwaith Eraill:**

Rydym yn cydweithio â phartneriaethau a chyrff cenedlaethol eraill i osgoi dyblygu ac i rannu syniadau. Eleni rydym wedi -

- Cymryd rhan yng ngweithgorau Llywodraeth Cymru i drafod cefnogaeth i ddatblygu asesiadau llesiant.
- Adrodd ar ein cynnydd i Bwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio Cyngor Sir Ynys Môn a Phwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ac wedi gweithredu ar eu argymhellion.
- Adolygu'r prif risgiau yn yr ardal a thrafod beth y gallwn ei wneud i helpu ein gilydd ac wedi datblygu cofrestr risg i'n helpu i fonitro ein risgiau lleol.
- Wedi bod yn rhan o ail-sefydlu Partneriaeth Ymchwil a Dealltwriaeth Gogledd Cymru sydd yn fforwm i swyddogion sydd yn gweithio i aelodau'r Bwrdd rannu ymchwil ag ymarfer da.
- Wedi gweithio i sicrhau swm o arian o'r Gronfa Ymchwil Rhanbarthol i ariannu'r prosiect iaith yn 2023/24.
- Parhau i weithio gyda Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, sydd wedi'n cefnogi wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Llesiant.
- Wedi cydweithio gyda'r Athro Elizabeth Woodcock sydd wedi cynnal ymchwiliad academaidd i heriau, cyfleoedd a gweithrediadau y Bwrdd – hyn yn unigryw ar draws Gymru.

**3.0 Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod**

- Yn ystod Haf 2023 byddwn yn **lawnsio ein Cynllun Llesiant** ar gyfer y cyfnod 2023-28 ac yn cychwyn ar lunio cynllun cyflawni blynyddol.
- Byddwn yn croesawu Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn **Eisteddfod Genedlaethol 2023** – cawn cyfle i godi ymwybyddiaeth o waith y Bwrdd a hynny mewn sefyllfa naturiol Gymreig a chynnal Panel Trafod am yr Amcanion Llesiant a'r Ddeddf.
- Byddwn yn cyd-weithio ar Gynllun Cyflawni Blynyddol a rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod y Bwrdd yn gwneud gwir wahaniaeth yn y meysydd blaenoriaeth. Hefyd yn rhoi ystyriaeth i argymhellion yr Athro Elizabeth Woodcock wrth gynllunio trefniadau gweithredol y Bwrdd. Fel rhan o ddatblygu'r gwaith hwn, mae arnom eisiau adeiladu ar ein gwaith **ymgysylltu** a pharhau i ymgysylltu yn ystyrlon. Rydym am sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael eu clywed ac y byddant yn helpu i siapio ein Cynllun Cyflawni blynyddol.
- Mae'r is-grŵp wedi derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd i symud ymlaen gyda'i phrosiect **iaith Gymraeg** nesaf, sef i edrych ar arferion da a llunio adroddiad o argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn ein sefydliadau cyhoeddus. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Bwrdd o'r heriau o gynllunio'r gweithlu a sut i'w cyfarch gan edrych ar ymarferion da y gall sefydliadau eu defnyddio. Byddwn yn adrodd ar hyn yn ein adroddiad blynyddol nesaf.
- Ym mis Mehefin 2023 byddwn yn croesawu swyddogion Llywodraeth Cymru i ymweld a hybiau a chynghreiriau cymunedol ar draws Gwynedd a Môn dros dri diwrnod er mwyn dangos cryfderau a heriau ein cymunedau gwledig. Bydd hyn yn siapio eu **Polisi Cymunedol** newydd – gyda'r dealltwriaeth bydd y Bwrdd yn parhau i fod yn rhanddeilydd wrth ddatblygu'r polisi.

**4.0 Monitro**

Mae'r is-grwpiau a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r is-grwpiau yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno. Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

**5.0 Trefniadau Craffu**

Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**6.0 Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae tîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 13 Gorffennaf 2023 |
| **TEITL** | Diweddariad - Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor am y gwaith wrth law er ystyriaeth yr aelodau |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mewn sir wledig sylweddol o ran maint, mae sicrhau opsiynau cludiant cyhoeddus o ansawdd yn allweddol i alluogi trigolion Gwynedd i deithio mewn modd cynaliadwy.

1.2 Mae cyfran sylweddol o bobl Gwynedd yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus er mwyn cyrraedd y gwaith, ysgol neu goleg, apwyntiadau meddygol, siopa a hamddena. Ond, oherwydd natur wledig Gwynedd a'r pellteroedd sydd teithio, mae llwybrau cludiant cyhoeddus yn dueddol o fod angen cymorth i fod yn hyfyw.

1.3 Mae mwyafrif gwasanaethau cludiant cyhoeddus Gwynedd yn derbyn elfen o sybsidi (rhannol neu lawn) o arian cyhoeddus ar hyn o bryd.

1.4 Mae'r maes cludiant cyhoeddus wedi ei flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor 2023-8. Mae gweledigaeth glir o "adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos."

1.5 Mae'r adroddiad yma yn cynnig diweddariad ar yr hyn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 15 Medi 2022 (Atodiad 1), gan nodi'r prif faterion yng nghyswllt cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd, yr hyn sydd ar waith ar hyn o bryd a'r cynlluniau ar gyfer y rhwydwaith i'r dyfodol.

1.6 Fel yr adroddwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ym Medi 2022, bu i Lywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth digynsail i gefnogi'r sector bysiau i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau trwy gydol pandemig Covid-19.

1.7 Roedd cefnogaeth Cynllun Brys ar gyfer Bysiau (BES) y Llywodraeth yn allweddol i alluogi gweithredwyr i gadw cwsmeriaid a rhwydwaith o wasanaethau a allai fel arall fod wedi'u colli neu eu lleihau yn sylweddol.

1.8 Gyda'r cynllun BES yn dirwyn i ben ar 24 Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pecyn ariannol Cronfa Bontio i Fysiau, a ddatblygwyd ar y cyd gyda Chynghorau a Thrafnidiaeth Cymru a fydd yn rhedeg tan Ebrill 2024.

1.9 Mae swyddogion Gwasanaeth Cludiant y Cyngor wedi bod yn cydweithio'n agos gyda chynrychiolwyr Trafnidiaeth Cymru ar sail rhanbarthol, ac wedi bod yn tanlinellu'r gefnogaeth y byddai ei angen er mwyn gallu sicrhau parhad gwasanaethau. Rydym yn disgwyl cadarnhad am union lefel y gefnogaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

1.10 Diolch i'r gwaith pwysig yma, sydd wedi cynnwys trafodaethau rheolaidd gyda darparwyr, ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith bysiau y mae'r Cyngor yn ei reoli, ac mewn rhai ardaloedd fe fydd gwelliant yn lefel y gwasanaeth a ddarperir.

1.11 Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar y pecyn ariannol y tu hwnt i Ebrill 2024, ac yn blaengynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf. Ar hyn o bryd does dim sicrwydd am lefel y gefnogaeth fydd ar gael.

**2. RHWYDWAITH NEWYDD**

2.1 Mae Gwasanaeth Cludiant y Cyngor wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru i adolygu a chynllunio rhwydwaith newydd ar gyfer Gwynedd. Mae'r gwaith bellach yn bwrw ymlaen i integreiddio gwasanaethau newydd i'n rhwydwaith.

2.2 Yn sgil y cyd-gynllunio yma, rydym wedi sicrhau cymorth ariannol i fuddsoddi mewn agweddau o rwydwaith newydd yn y flwyddyn ariannol bresennol. Mae'r gwaith yma yn parhau, ac rydym yn obeithiol y bydd y blaengynllunio yma yn ein galluogi i sefydlogi'r rhwydwaith, gan liniaru effaith unrhyw newid mewn lefelau cyllid gan y Llywodraeth ar weithredwyr.

2.3 Mae'r cydweithio yma gyda Thrafnidiaeth Cymru wedi sicrhau cyllid ychwanegol i Wynedd ar gyfer y flwyddyn bresennol. Tra bod hyn yn cynnig cyfle i wella ein rhwydwaith, ymrwymiad blwyddyn ar flwyddyn y mae Trafnidiaeth Cymru yn ei gynnig ar hyn o bryd.

2.4 Yn sgil y gwaith pwysig yma gan swyddogion y Cyngor ar y cyd â Thrafnidiaeth Cymru, mae rhwydwaith newydd o wasanaethau yn cynnig amserlenni safonol wedi dechrau yn ardal Caernarfon a Dyffryn Nantlle. Byddwn yn parhau i weithio ar ardaloedd eraill dros y misoedd nesaf.

2.5 Profodd ardal Dyffryn Nantlle leihad sylweddol yn y ddarpariaeth pan aeth cwmni lleol i'r wal, ac roeddem yn awyddus i fuddsoddi yn y rhwydwaith yma gan fod 18% o boblogaeth ward Llanllyfni heb fodd arall o deithio (data Cyfrifiad 2021, ons.gov.uk).

2.6 Mae'r rhwydwaith newydd o wasanaethau yn cynnig amserlenni safonol ar gyfer ardaloedd Talysarn, Nantlle, Llanllyfni a Nebo. Mae'r amserlenni wedi eu paratoi i fod yn hwylus i'w dilyn a'u hyrwyddo, gydag amseroedd gadael rheolaidd, ac yn cynnig cysylltiadau gyda gwasanaethau'r T22/T2 ym Mhenygroes a/neu Caernarfon. Mae'r gwasanaethau wedi eu sefydlu eleni gyda chyfraniad ychwanegol gan Trafnidiaeth Cymru, ond does dim sicrwydd am gyllid y tu hwnt i Mawrth 2024 ar hyn o bryd. Mae swyddogion yn parhau i drafod gyda Trafnidiaeth Cymru.

2.7 Mae cynlluniau i ddatblygu'r rhwydwaith yn ardaloedd eraill hefyd ac mae swyddogion yn parhau gyda'r gwaith yma, gyda'r bwriad o fod yn plethu gyda chynlluniau Trafnidiaeth Cymru i ail-dendro gwasanaethau TrawsCymru a fydd yn weithredol yn ystod yr hydref.

2.8 Mae cydweithio agos gyda Trafnidiaeth Cymru wedi galluogi'r Cyngor i gyflwyno gwasanaethau ychwanegol i'r hyn fyddai wedi bod yn bosib fel arall, a bydd swyddogion yn parhau i adeiladu ar y gwaith allweddol yma.

2.9 Mae angen nodi'r risg ariannol i'r Cyngor, gan mai ond am y flwyddyn ariannol yma mae Trafnidiaeth Cymru yn gallu ymrwymo i ariannu'r rhwydwaith newydd. Golyga hyn fod posibilrwydd na fyddwn yn gallu parhau gyda'r rhwydwaith ar ei newydd wedd os na fyddwn yn derbyn cymorth ychwanegol flwyddyn nesaf.

2.10 Bydd disgwyl i'r Cyngor fod yn ail-dendro gwasanaethau yn fuan gan bod rhai darparwyr wedi tendro sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn. Oherwydd bod costau wedi cynyddu yn sylweddol ers hynny, rhaid bod yn fyw i'r ffaith y bydd prisiau am fod yn sylweddol uwch pan yn aildendro.

2.11 Mae'r Gwasanaeth yn gorwario £300,000 y flwyddyn i ariannu'r rhwydwaith sydd yn ei lle ers nifer o flynyddoedd, ac mae'r amserlen ail-dendro wedi llithro am na fu'n bosib gwneud hynny yn ystod cyfnod Covid.

2.12 Tra'n deall fod angen edrych i'r cyfnod nesaf y tu hwnt i'r gefnogaeth sydd wedi ei gynnig trwy grantiau BES, mae'n glir fod cwmnïau bysiau angen cefnogaeth i'r blynyddoedd nesaf er mwyn sefydlogi'r rhwydwaith.

**3. SHERPA'R WYDDFA**

3.1 Mae llwyddiant gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa ers ei ail-lansiad yn dyst sut mae moderneiddio gwasanaethau i gyfarch anghenion defnyddwyr yn gallu datblygu rhwydwaith safonol mewn amgylchiadau heriol.

3.2 Mae staff y Cyngor wedi bod yn gweithio yn agos iawn gyda Trafnidiaeth Cymru i gyflwyno gwasanaeth o safon i drigolion Eryri ac ehangach ac ymwelwyr i'r ardal. Cafodd y gwasanaeth ei ail-dendro am 5 mlynedd yn ddiweddar, gan gychwyn o 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2028, ac rydym yn monitro ei ddatblygiad a'i berfformiad.

3.3 Penderfynwyd safoni prisiau tocynnau ar y rhwydwaith gan fod cryn dipyn o anghysondeb yn bodoli - yn hanesyddol roedd tablau prisiau yn cael eu mabwysiadu o un gweithredwr i'r llall.

3.4 Ers mis Ebrill, mae'r gwasanaeth yn cysylltu mynyddoedd Eryri gyda'r môr, gyda'r gwasanaeth S4 yn ymestyn o Ben-y-Pass drwy Beddgelert a Porthmadog, heibio Borth-y-Gest i Draeth y Greigddu, Morfa Bychan. Mae darpariaeth ychwanegol hefyd rhwng Beddgelert a Pen-y-Pass mewn ymgais i liniaru problemau parcio ar y ffordd – gyda gwasanaeth pob awr ar y penwythnosau a gwyliau ysgol yn cael ei dreialu yno eleni.

3.5 Hyd yma, mae'r ymateb yn hynod gadarnhaol, gyda nifer teithwyr ym mis Mai i fyny 44% o gymharu â 2022, ac i fyny 62% o'i gymharu a Mai 2019 (cyn COVID).

3.6 Rydym yn obeithiol y bydd hyn yn gwneud y rhwydwaith yn ddeniadol iawn pan ddaw'r amser i ail-dendro eto mewn 5 mlynedd ac felly yn dod a'r gost i'r drethdalwr yn is. Mae'r cynnydd yn y nifer teithwyr yn eithaf syfrdanol - mae'r tabl isod yn dangos cynnydd o 30% yn Ebrill 2023 i gymharu â Ebrill 2022, sef 11,685 teithiwr (NB contract wedi cychwyn 09/04/22 o gymharu â 01/04/23 felly 8 diwrnod yn llai o weithredu). O edrych ar y cyfnod Ebrill -Mehefin 2023, mae cynnydd o 35% o gymharu'r yn cyfnod y llynedd (Tabl 1).

**Tabl 1**

| *Teithwyr* | *2019-20* | *2021-22* | *2022-23* | *2023-24* |
|---|---|---|---|---|
| *Ebrill* | 30,364 | 14,581 | 38,351 | 50,036 |
| *Mai* | 36,681 | 24,699 | 41,192 | 59,348 |
| *Mehefin* | 33,253 | 36,929 | 42,324 | 55,018 |
| *Gorffennaf* | 40,485 | 41,482 | 48,620 | |
| *Awst* | 40,083 | 43,280 | 56,909 | |
| *Medi* | 32,974 | 34,114 | 41,669 | |
| *Hydref* | 30,165 | 25,486 | 29,154 | |
| *Tachwedd* | 23,153 | 17,465 | 20,755 | |
| *Rhagfyr* | 20,138 | 14,172 | 17,745 | |
| *Ionawr* | 21,269 | 14,941 | 18,255 | |
| *Chwefror* | 20,006 | 15,331 | 20,462 | |
| *Mawrth* | 15,031 | 21,863 | 23,650 | |
| | 343,602 | 304,343 | 399,086 | 164,402 |

3.7 Gyda 4 partner yn cyfrannu at y Sherpa, mae yna risg i'r rhwydwaith pe byddai un o'r rhanddeiliaid yn penderfynu peidio ariannu'r gwasanaeth. Gan mai o flwyddyn i flwyddyn mae Trafnidiaeth Cymru yn gallu ymrwymo eu cyllid, mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ei le am dymor y contract (sef 5 mlynedd), gyda rhybudd ffurfiol o 6 mis (o leiaf) gall unrhyw Bartner derfynu'r cytundeb.

## 4. TRAWSCYMRU A BYSIAU TRYDAN

4.1 Mae gwasanaethau bws TrawsCymru yn rhan bwysig o'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru – fel rhan o'r teithiau pellter hir ac fel gwasanaethau bws lleol.

4.2 Caiff y bysiau eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac maent yn darparu cysylltiadau hanfodol o ran trafnidiaeth cyhoeddus ar gyfer llawer o gymunedau ledled Gwynedd. Maent yn cysylltu â gwasanaethau rheilffyrdd ac yn cynnig dull hygyrch, fforddiadwy a charedig i'r amgylchedd o deithio i ymwelwyr, sy'n eu galluogi i fwynhau golygfeydd hardd Cymru.

4.3 Disgwylir y bydd gwasanaeth newydd T22 yn gweithredu yn ystod yr hydref gan wasanaethu Blaenau Ffestiniog – Caernarfon heibio Porthmadog, a hynny efo pedwar o fysiau newydd trydan fydd yn gweithredu allan o safle pwrpasol ym Mhorthmadog.

4.4 Mae hyn yn ddatblygiad cyffrous ar gyfer y rhwydwaith yng Ngwynedd, a byddwn yn monitro y bysiau trydan ac yn ystyried sut y gallwn wneud defnydd o fysiau tebyg mewn rhannau eraill o'r rhwydwaith i'r dyfodol.

4.5 Oherwydd y sefyllfa ariannol a diffyg cystadleuaeth gan gwmnïau, mae posib y bydd cost cynnal y gwasanaeth yn uwch na'r gwasanaethau presennol ar hyd y llwybr.

4.6 Mae ein gwaith o ragdybio'r costau gweithredu yn galonogol ar hyn o bryd ond mae'n anodd rhagweld sut bydd y cwmnïau yn ymateb i'r cynnig i gontract 'weithredu a chynnal' sydd y cyntaf o'i fath yng Ngwynedd. Rydym wedi derbyn cymorth arbenigol i geisio lleihau y risg ariannol ar y Cyngor a hefyd i geisio lliniaru effaith y farchnad ar y costau e.e. cymryd y risg ar y cyflenwad trydan am flwyddyn gyntaf y contract.

4.7 Bydd Trafnidiaeth Cymru yn cymryd y cyfrifoldeb am wasanaethau T2 (Bangor - Aberystwyth) a'r T3 (Abermaw - Wrecsam) o 4 Medi 2023 ymlaen. Maent wedi bod allan i dendr gan Trafnidiaeth Cymru am gyfnod o ddwy flynedd gyda'r bwriad o ail-dendro am fysiau hybrid neu drydan wedi hynny.

## 5. DATBLYGIADAU RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL

### 5.1 Y cyd-destun cenedlaethol

5.1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi uchelgais clir o weld llai o gerbydau preifat yn teithio ar y ffyrdd ac mae adolygiad annibynnol ffyrdd yn tanlinellu'r awydd i ddatblygu dulliau teithio cynaliadwy.

5.1.2 Wrth ymateb i'r adolygiad ffyrdd annibynnol, nododd y Llywodraeth:
"*Bydd lleihau ac ail-flaenoriaethu ein buddsoddiad ar gynlluniau ffyrdd newydd a chynyddu ein buddsoddiad mewn dulliau cynaliadwy yn cynorthwyo newid modd, ond bydd hefyd yn sicrhau manteision ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys llai o lygredd aer, canol trefi a chymdogaeth mwy llwyddiannus a system drafnidiaeth sy'n hygyrch ac yn deg i bawb. Rydym yn cydnabod bod hyn yn newid mawr ac anodd, na fydd yn digwydd dros nos, ac mae'n gofyn i ni weithio ar y cyd, ar draws y llywodraeth a thu hwnt.*"

5.1.3 Tra'n deall yr uchelgais yma, mae'n glir y bydd angen buddsoddiad sylweddol uwch mewn dulliau teithio amgen yn cynnwys cefnogaeth hirdymor i ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Mae goblygiadau hynny mewn sir wledig fel Gwynedd yn wahanol i ddinasoedd mwy dinesig lle mae'r ddarpariaeth a'r gwasanaeth yn dra gwahanol.

### 5.2 Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru

5.2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i ymchwilio i'r problemau, y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer sicrhau system drafnidiaeth gynaliadwy ac integredig yn y gogledd.

5.2.2 Mae disgwyl y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi eu hadroddiad terfynol yn yr hydref. Yn y cyfamser, mae Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wedi cyhoeddi adroddiad interim sy'n cynnwys argymhellion drafft.

5.2.3 Mae'r adroddiad interim yn cydnabod: "Mae patrymau ac opsiynau teithio yn wahanol iawn mewn ardaloedd gwledig, ac rydym yn deall na ellir gwneud pob taith mewn car trwy ddull arall. Ni fydd yr hyn sy'n gweithio i ardal drefol o reidrwydd yn berthnasol i leoliad anghysbell."

5.2.4 O ran bysiau yn benodol, nodir y byddai newidiadau deddfwriaethol a chyflwyno model masnachfreinio yn allweddol i wella gwasanaethau ar draws y rhanbarth. Dylid gweithredu rhwydwaith bysiau craidd effeithiol o brif goridorau teithio lle nad oes opsiwn rheilffordd i gysylltu cymunedau ac ardaloedd cyflogaeth, gan ddarparu gwasanaethau amledd da ac oriau gweithredu hirach a mwy cyson.

5.2.5 Cyfeirir hefyd y byddai cyfuniad o lwybrau lleol wedi'u hamserlennu a gwasanaethau trafnidiaeth ddynamig sy'n ymateb i'r galw fod yn effeithiol wrth ddarparu mynediad at y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus graidd i bobl mewn ardaloedd gwledig.

5.2.6 Disgwylir adroddiad terfynol ac argymhellion y Comisiwn yn yr hydref a bydd swyddogion yr Adran yn ystyried unrhyw argymhellion wrth i'r gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith newydd fwrw ymlaen.

**5.3 Cyd-Bwyllgor Corfforedig**

5.3.1 Daeth swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer gogledd Cymru i rym ar 30 Mehefin 2022. Mae'n cynnwys gofyn statudol i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) newydd. Bydd wedyn gofyn i'r CBC adolygu'r cynllun yn ffurfiol bob tair blynedd, a chynhyrchu cynllun newydd bob pum mlynedd.

5.3.2 Bydd cyflawni'r prosiectau a'r camau gweithredu a fydd wedi'u cynnwys yn y CTRh yn parhau i fod yn gyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol lle mae'r prosiectau/camau gweithredu hynny wedi'u lleoli.

5.3.3 Nid yw'n gwbl glir ar hyn o bryd beth yw goblygiadau hyn i wasanaethau cludiant cyhoeddus yn sirol, ond bydd y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar gynnwys y CTRh, er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion Gwynedd.

**6. CLOI**

6.1 Cyflwynir yr adroddiad fel diweddariad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, am y gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yma wrth ddatblygu rhwydwaith newydd, a'r heriau wrth gynllunio i'r dyfodol yng nghyd-destun yr ansicrwydd ariannol yn y tymor canolig a thu hwnt.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 15 Medi 2022 |
| **TEITL** | **Diweddariad - Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus** |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor am y gwaith wrth law i'r Pwyllgor eu hystyried |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae sawl o fewn ein cymunedau yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus i deithio i'r gwaith, at addysg, i apwyntiadau ac wrth gwrs mae'r gwasanaeth yn bwysig iawn ar gyfer byw yn annibynnol. Fe gofiwch yn ôl yn Gorffennaf 2021 fe wnaeth yr Adran Amgylchedd gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn amlinellu trefn o flaenoriaethu gwasanaethau ar sail gwerth cymdeithasol yn hytrach na cost fesul pen teithiwr [Atodiad 1].

1.2 Mae Gwynedd fel sawl Sir arall yng Nghymru yn wledig iawn, sydd wrth gwrs yn gwneud llwybrau gyda nifer gweddol isel o deithwyr yn annhebygol o fod yn fasnachol hyfyw. Mae oddeutu 60 o wasanaethau Cludiant Cyhoeddus yng Ngwynedd, ac o'r rhain mae oddeutu 87% angen eu sybsideiddio [yn rhannol neu yn llawn] gydag arian cyhoeddus. Mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu £2.3 miliwn y flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus i'n trigolion.

1.3 Mae'r adroddiad yma yn amlinellu be sydd wedi bod yn digwydd yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn ystod y 2 flynedd diwethaf, ac yn amlinellu'r agweddau sy'n ein hwynebu. Pwrpas cyflwyno'r trosolwg yma i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yw yn gyntaf i ddiweddaru'r Pwyllgor, ond hefyd rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried os ydynt yn awyddus derbyn adroddiad mwy manwl ar agwedd o waith y Gwasanaeth ar gyfer ei Graffu.

1.4 Mae'r adroddiad yn gosod allan penawdau penodol sydd gyda'i gilydd yn cyflwyno darlun i Aelodau'r Pwyllgor o'r gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen a be sydd ar waith ac ar y gweill.

**2. COFID 19 - GRANTIAU**

2.1 Ers Mawrth 2020 bu i ni dalu 75% o bris dyddiol i bob contractwr bws a thacsi ysgol yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn sicrhau fod y gweithredwyr dal mewn busnes pan oedd plant yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol.

2.2 Bu i gludiant cyhoeddus barhau drwy'r cyfnod yma ond gyda'r mwyafrif ond yn rhedeg 75% o'i siwrnai, roedd hyn yn sicrhau fod gweithwyr allweddol yn parhau i gael mynediad i'w gwaith.

**SECTOR BYSIAU 2 (BES 2)**

2.3 Roedd Llywodraeth Cymru am gymryd camau i helpu gweithredwyr bysiau yng Nghymru i oroesi pandemig COVID-19, ac mae'r camau wedi sicrhau bod gweithredwyr yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau na ellid bod wedi'u darparu heb y cymorth ariannol hwn, ers mis Mawrth 2020. Mae'r cymorth hwn drwy BES2 wedi bod yn holl bwysig i alluogi'r gweithredwr i gadw cwsmeriaid a rhwydwaith o wasanaethau a allai fel arall fod wedi'u colli neu eu lleihau'n sylweddol. Y gobaith oedd y byddai'r gefnogaeth ariannol yn cefnogi'r rhwydwaith pan fyddai'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol (ac unrhyw ffactor eraill) yn cael eu llacio.

2.4 Cefnogwyd y diwydiant bysiau yn ystod y pandemig i gadw gwasanaethau hanfodol barhau, ac roedd y Cynllun brys ar gyfer y Sector Bysiau 2 (BES2) yn rhan allweddol o hyn. Roedd y cytundeb yma rhwng cwmnïau bysiau, Cyngor Gwynedd, Trafnidiaeth i Gymru a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd £37.2 miliwn yn ychwanegol ar draws Cymru i gefnogi'r diwydiant.

2.5 Roedd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu rhoi bysiau ychwanegol oherwydd y gofyn i ymbellhau yn gymdeithasol. Trefnwyd bysiau ysgol pur i blant oedd yn arferol yn teithio ar fysiau cyhoeddus. Roedd gweithredwyr bysiau yn gallu gwneud cais yn fisol hefyd am golled incwm a gwahaniaeth mewn tocyn teithio mantais o gymharu â'r un cyfnod yn 2019.

2.6 Mae holl daliadau cofid i'r gweithredwyr wedi dod i ben ers 31 Gorffennaf 2022.

2.7 Mae cynllun newydd Sector Bysiau 3 (BES3) yn cychwyn ym mis Awst 2022, ond nid yw'r termau ac amodau wedi ein cyrraedd hyd yma.

**Effaith cofid ar wasanaethau**

2.8 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y galw am deithio yn dilyn y cyngor i bawb aros gartref, yr angen i ymbellhau yn gymdeithasol, a'r ffaith fod nifer yn gweithio gartref. Ar y cyfan, mae'r niferoedd sy'n teithio ar wasanaethau bws cyhoeddus yng Ngwynedd i lawr 23%, o gymharu niferoedd Ebrill i Fehefin 2019 a 2022. Er hyn, mae cynnydd yn rhai gwasanaethau megis y twf o 18% yn niferoedd teithwyr rhwydwaith newydd Sherpa Eryri (o gymharu niferoedd Ebrill i Fehefin 2022 a 2019).

2.9 Gwelwn hefyd bod cynnydd yn nifer o deithwyr o gymharu eleni gyda'r un cyfnod y llynedd (cynnydd o 47%), felly mae'n galonogol gweld fod pobl yn cael yr hyder i ddychwelyd at gludiant cyhoeddus.

2.10 Mae prinder gyrwyr yn effeithio'r diwydiant yn enfawr, nifer o yrwyr wedi ymddeol neu adael i swydd hollol wahanol, ac ymddengys fod holl gwmnïau bysiau Gwynedd yn cael trafferth recriwtio

**3. CLUDIANT YSGOLION**

3.1 Rydym yn pwrcasu contractau ar ran yr Adran Addysg ar gyfer ysgolion a cholegau Gwynedd. Mae gennym 23 contract bws i ysgolion cynradd, 52 bws i ysgolion uwchradd, 9 bws coleg a 218 contract tacsis/bysiau mini i ysgolion cynradd, uwchradd ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae modd i ddysgwyr hefyd deithio ar ein bysiau cyhoeddus ble mae'r cyngor yn cyfrannu at gynllun prynu seddi.

3.2 Rydym yn pwrcasu contractau consortiwm ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn galluogi dysgwyr blwyddyn 12 a 13 deithio o un ysgol uwchradd i'r llall er mwyn derbyn eu gwersi. Mae gennym 190 o gontractau.

## 4. PRIS TANWYDD

4.1 Gyda phris tanwydd wedi codi yn sylweddol dros y misoedd diwethaf derbyniwyd nifer o geisiadau am arian ychwanegol gan weithredwyr. Yn arferol bob blwyddyn rydym yn rhoi chwyddiant ar gontractau cludiant cyhoeddus a bysiau ysgol, eleni roedd y chwyddiant yn 4.1% ac roedd hyn yn dderbyniol gan y gweithredwyr.

4.2 O ran tacsis ysgol cafwyd nifer o geisiadau am arian ychwanegol gyda nifer yn dweud bod nhw am derfynu eu contractau. Penderfynwyd fel ewyllys da i roi 20% yn ychwanegol ar eu contractau am fis Mehefin a Gorffennaf 2022. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa mis Medi 2022.

4.3 Mae Siroedd eraill Cymru sydd wedi ail-dendro contractau yn ddiweddar wedi cael prisiau yn ôl sydd 3 gwaith yn uwch na'r pris blaenorol. Bu i ni ail dendro un contract bws cyhoeddus yn ddiweddar (Bethesda - Mynydd Llandygai - Bangor) ble gwelwyd 11% cynnydd yng nghost y contract (pris 2019 v pris 2022).

## 5. PAPUR GWYN UN RHWYDWAITH, UN AMSERLEN, UN TOCYN

5.1 Mae'r Papur Gwyn ar Fysiau, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gam allweddol tuag at fodel newydd ar gyfer gweithredu bysiau yng Nghymru, ac yn gyfle inni edrych ar yr hyn mae angen i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus Cymru ei ddarparu.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, y diwydiant bysiau a theithwyr ar fodel masnach freinio arfaethedig sydd â'r nod, yn y pen draw, o ddarparu Un Rhwydwaith, Un Amserlen ac Un Tocyn.

5.3 Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos newydd gau, roedd hyn yn caniatáu i bobl ledled Cymru ddweud eu barn ar sut bydd y system newydd yn cael ei chynllunio.

## 6. Adolygiad Rhwydwaith

6.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio yn agos gyda swyddogion Trafnidiaeth i Gymru dros y misoedd diwethaf i ail edrych ar rwydwaith bysiau Gwynedd. Mae'r rhwydwaith presennol yn bodoli ers blynyddoedd.

6.2 Pwrpas yr adolygiad ydi gwella'r ddarpariaeth cludiant drwy addasu'r amserlenni i gryfhau cysylltiadau rhwng bysiau a threnau gan greu posibiliadau teithio ehangach. Y weledigaeth ydi defnyddio'r adnoddau sydd gennym yn barod ond teilwra'r amserlenni i weithredu'n fwy cynaliadwy gyda'r gobaith o gynyddu posibiliadau teithio i ardaloedd gwledig sydd heb ddarpariaeth ddigonol ar hyn o bryd. Gall hyn fod yn defnyddio tacsi neu fws mini sy'n bwydo mewn i'r prif wasanaethau bws ar y rhwydwaith strategol.

6.3 Bydd cyfyngiadau i'r posibiliadau oherwydd y pwyslais ar siwrneiau addysg / cymudo sy'n hanfodol i'r defnyddwyr ac yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'r Cyngor.

6.4 Gobeithir treialu bws Fflecsi yn ardal Pwllheli flwyddyn nesaf. Mae fflecsi yn ffordd wahanol o deithio ar fws ac efallai yn swnio yn eithaf radical ar yr wyneb! Mae Fflecsi yn gweithio drwy eich codi a'ch gollwng mewn ardal wasanaeth (neu *zone*) ac nid yw'n gaeth i safleoedd bws. Rhaid archebu taith ymlaen llaw drwy'r ap neu mae'n bosibl codi'r ffôn. Yna, mae bws yn eich codi, gan newid ei lwybr fel y gall pob teithiwr gyrraedd lle mae angen iddynt fynd. Mae'r Fflecsi wedi bod yn llwyddiant mawr yn Ninbych, Dyffryn Conwy ac fel Fflecsi-Bwcabus yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin a De Ceredigion.

6.5 Mae COFID-19 wedi effeithio'n fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ar sut mae pobl yn teithio, ac mae llai o bobl yn teithio. Gall fflecsi helpu'r teithwyr hyn mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy, gan ddarparu gwasanaethau pryd bynnag a lle bynnag y bydd eu hangen fwyaf. Mae dewis pryd maent am deithio hefyd yn golygu y gall gweithwyr allweddol gyrraedd y gwaith yn brydlon ac y gall teithwyr wneud teithiau hanfodol heb fawr ddim oedi.

6.6. Gobeithir yn y dyfodol cydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen, Yr Orsaf, Penygroes ac O Ddrws i Ddrws i weld os allant hwy gynnig ffyrdd hygyrch o gludo teithwyr.

6.7 Mae O Ddrws i Ddrws yn gweithredu bws fflecsi o amgylch Pen Llyn sydd wedi disodli'r gwasanaethau bysiau arfordirol tymhorol ar Ben Llŷn. Mae Fflecsi Llŷn yn gweithredu ddydd Gwener, dydd Sadwrn, dydd Sul a dydd Llun ac mae'n cynnig ffordd fwy hyblyg o fynd o gwmpas trwy eich codi a'ch gollwng yn yr ardal ddiffiniedig, gan eich galluogi i gyrraedd traethau, meysydd gwersylla, mannau twristaidd a gwneud siwrneiau lleol eraill.

## 7. TRAWSCYMRU

7.1 Mae gwasanaethau bws TrawsCymru yn rhan bwysig o'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru – fel rhan o'r teithiau pellter hir ac fel gwasanaethau bws lleol.

7.2 Caiff y bysiau eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac maent yn darparu cysylltiadau hanfodol o ran trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer llawer o gymunedau ledled Cymru. Maent yn cysylltu â gwasanaethau rheilffyrdd ac yn cynnig dull hygyrch, fforddiadwy a charedig i'r amgylchedd o deithio i ymwelwyr, sy'n eu galluogi i fwynhau golygfeydd hardd Cymru.

7.3 Mae datblygiadau cyffrous ar y gweill o safbwynt gwasanaethau TrawsCymru oherwydd bydd cerbydau trydan newydd, ap newydd i deithwyr a gwefan newydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y misoedd sydd i ddod. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â theithwyr ar ein bysiau a thrwy ein sianelau ar gyfryngau cymdeithasol.

7.4 Mae staff yr Uned Cludiant Integredig wedi bod yn gweithio yn agos gyda swyddogion Trafnidiaeth i Gymru dros y misoedd diwethaf i ail edrych ar rwydwaith bysiau Gwynedd. Mae cynlluniau i gyflwyno gwasanaeth newydd y T22 yn hwyrach eleni, fydd yn gwasanaethu Blaenau Ffestiniog - Caernarfon via Porthmadog gyda bysiau trydan.

7.5 Mae'r amserlenni arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth T22 TrawsCymru newydd wedi eu dylunio i ddarparu gwasanaeth cydlynol gyda'r gwasanaeth T2 TrawsCymru (Aberystwyth – Bangor via Dolgellau) ac i ddarparu cysylltiadau cadarn ym Mhorthmadog ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno cysylltu rhwng teithiau gwasanaeth T2 i ac o Fangor a Caernarfon a theithiau gwasanaeth T22 i ac o Flaenau Ffestiniog.

7.6 Rydym hefyd yn y broses o gynllunio ar gyfer ail dendro gwasanaethau'r T2 (Bangor - Aberystwyth) a'r T3 (Abermaw - Wrecsam) gan fod y contractau cyfredol yn dod i ben ddiwedd Ionawr 2023. Mae amserlenni arfaethedig mewn lle ar gyfer cychwyn mis Chwefror 2023. Bydd amserlen dros dro ar gyfer y T22 gydag addasiad i gyd-fynd a'r amserlenni T2/T3 newydd flwyddyn nesaf.

## 8. SHERPA'R WYDDFA AR EI NEWYDD WEDD

8.1 Dyma grynodeb o'r gwelliannau mawr a gyflwynwyd ar rwydwaith newydd Sherpa'r Wyddfa, a ddaeth i rym ar ddydd Sadwrn 9 Ebrill 2022.

8.2 Mae pobl leol yn elwa o lansiad rhwydwaith newydd Sherpa'r Wyddfa sydd yn darparu mwy o gyfleoedd teithio ar draws ardal eang, gyda chyfleoedd i deithio ar draws Eryri a'r cyffiniau a chysylltedd rhagorol rhwng gwahanol lwybrau mewn lleoliadau allweddol.

- Llwybr S1 (Betws-y-coed - Caernarfon via Llanberis)
  Gwasanaeth uniongyrchol rhwng Caernarfon a Pen-y-Pass/Betws-y-coed ac nid oes angen newid bws yn Llanberis - dyma gyfuniad o'r hen 88 a S2. Mae'r bysus yn rhedeg pob awr yn ddyddiol, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o siwrneiau rhwng Caernarfon a Llanberis - mi roedd 'na 10 bws yn rhedeg Llun i Sadwrn a 4 ar y Sul lle rydym bellach hefo 13 siwrne ar Lun i Sadwrn a 12 ar ddydd Sul. Hefyd, gwelwn gysylltiadau gwell yn Pen-y-Pass gyda'r S4 i/o Feddgelert/Porthmadog.

- Llwybr S2 (Bangor – Pen-y-Pass via Llanberis)
  Gwasanaeth uniongyrchol rhwng Bangor a Pen-y-Pass ac nid oes angen newid bws yn Llanberis - dyma hen lwybr yr 85/86. Mae'r bysus yn rhedeg pob awr yn ddyddiol, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o siwrneiau rhwng Bangor a Llanberis - mi roedd 'na 9 bws i Fangor a 7 i Lanberis yn rhedeg Llun i Wener, 7 i Fangor a 6 i Lanberis ar ddydd Sadwrn a 4 pob ffordd ar ddydd Sul. Mae'r rhwydwaith newydd yn darparu 13 bws i Fangor a 12 i Lanberis Llun i Wener, 12 pob ffordd ar ddydd Sadwrn gyda 11 i Fangor a 12 i Lanberis ar ddydd Sul.

- Llwybr S3 (Beddgelert – Dinorwig via Caernarfon)
  Gwasanaeth newydd sy'n gymysgedd o hen lwybr yr 83 a'r S4. Mae'n darparu gwasanaeth pob awr, Llun i Sadwrn, rhwng Beddgelert a Llanrug heibio Waunfawr, Caeathro, Caernarfon a Beddgelert. Mae cysylltiadau gwell ym Meddgelert gyda llwybr yr S4 i/o Pen-y-Pass ac i/o Borthmadog. Mae cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth i Fethel, gyda'r nifer o fysus Llun i Wener wedi codi o 7 i'r dwyrain /9 i'r gorllewin i 13 i'r dwyrain /14 i'r gorllewin. Bysus ar y Sadwrn wedi codi o 7 i'r gogledd /6 i'r de i 12 i'r dwyrain /13 i'r gorllewin ac ar y Sul wedi codi o 3 i 5 siwrne. Hefyd gwelwn gynnydd sylweddol yn y nifer o fysus yn cysylltu Beddgelert a Caernarfon heibio Waunfawr a Caeathro - mae'r nifer o fysus wedi dyblu o 6 i 12 Llun i Sadwrn ac o 3 i 6 ar y Sul. Yn olaf, mae'r nifer o fysus yn cysylltu Caernarfon a Deiniolen wedi cynyddu hefyd - ar Lun i Wener mae'r nifer wedi codi o 6 i'r dwyrain a 8 i'r gorllewin i 9 i'r dwyrain a 10 i'r gorllewin; ar y Sadwrn nifer o fysus wedi codi o 6 i'r dwyrain a 8 i'r gorllewin wedi cynyddu i 9 bob ffordd; ac ar y Sul nifer o fysus wedi codi o 3 i 5 siwrne bob ffordd.

- Llwybr S4 (Pen-y-Pass i Borthmadog via Beddgelert)
  Cysylltiadau gwych gyda'r S3 ym Meddgelert ar gyfer teithio i/o Gaernarfon a Pen-y-Pass a hefyd gyda bysus yr S1 i/o Betws-y-Coed a Llanberis. Cynnydd yn y nifer o fysus yn cysylltu Beddgelert a Porthmadog fel y ganlyn - ar Lun i Sadwrn mae'r nifer o fysus wedi codi o 6 i 7 siwrne a 2 wedi codi i 3 ar y Sul. Cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o fysus sy'n cysylltu Beddgelert a Caernarfon ar Lun i Sadwrn, gyda'r nifer o fysus wedi codi o 3 i 5.

- Llwybr S5 (Llanberis – Pen-y-Pass)
  Bws yn gweithredu pob hanner awr, yn ddyddiol, rhwng Llanberis a Pen-y-Pass heibio Nant Peris - gyda'r bws cyntaf yn gadael Llanberis am 0710 y bore, a'r bws olaf lawr o Pen-y-Pass yn gadael am 1930. Mae bysus ychwanegol yn gweithredu rhwng Nant Peris a Pen-y-Pass ar Sadwrn, Suliau a gwyliau cyhoeddus a hefyd Llun i Wener yn ystod gwyliau'r Ysgol sydd yn rhoi bws pob chwarter awr ar y llwybr hwn. Gwasanaeth gwell ar gyfer ymwelwyr a lleihau'r defnydd o'r car personol er mwyn ceisio ymdopi a phroblemau Parcio gall effeithio ar gymunedau yn yr ardal.

- <u>Niferoedd teithio</u>
  Dyma gymhariaeth o'r niferoedd teithio ar yr 'hen rwydwaith' o gymharu gyda'r rhwydwaith Sherpa newydd. Roedd yr 'hen rwydwaith' yn cynnwys yr 83, 85, 86, 88, S1, S2, S4 a S97.

| Nifer o deithwyr | 2019 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 30,364 | 14,581 | 37,431 |
| Mai | 36,681 | 24,699 | 39,923 |
| Mehefin | 33,253 | 36,929 | 40,880 |

| **2019 v 2022** | |
|---|---|
| **Cynnydd mewn teithwyr** | **Cynnydd (%)** |
| 7,067 | 23% |
| 3,242 | 9% |
| 7,627 | 23% |
| **2021 v 2022** | |
| **Cynnydd mewn teithwyr** | **Cynnydd (%)** |
| 22,850 | 157% |
| 15,224 | 62% |
| 3,951 | 11% |

8.3 Ar y cyfan mae'r nifer teithio i fyny 39% o'i gymharu â ffigyrau 2021 sy'n profi bod pobl yn fwy hyderus i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn dilyn y pandemig. Mae'r nifer o deithwyr fyny 5% ar 2019 sy'n profi bod gwelliant i'r ddarpariaeth o gymharu â'r rhwydwaith hanesyddol a bod y gwasanaeth yn denu mwy o bobl ar y bysus. Mae'r rhwydwaith newydd gael llwyddiant mawr o fewn cyfnod byr.

8.4 Mae refeniw ar y rhwydwaith i fyny 41% eleni o gymharu â'r un cyfnod yn 2019 ac mae fyny 57% eleni o gymharu â'r un cyfnod yn 2021.

**9. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

9.1 Daeth swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer Gogledd Cymru i rym ar y 30 o Fehefin 2022. Mae swyddogaethau'r CBC yn cynnwys gofyn statudol i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) newydd ar gyfer y rhanbarth erbyn mis Gorffennaf 2023, sydd yn amserlen hynod o heriol. Bydd wedyn gofyn i'r CBC adolygu'r cynllun yn ffurfiol bob tair blynedd, a chynhyrchu cynllun newydd bob 5 mlynedd.

9.2 Bydd cyflawni'r prosiectau a'r camau gweithredu a fydd wedi'u cynnwys yn y CTRh yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bob awdurdod lleol lle mae'r prosiectau/camau gweithredu hynny wedi'u lleoli.

9.3 Nid yw'n gwbl glir ar hyn o bryd beth yw goblygiadau hyn i wasanaethau cludiant cyhoeddus yn sirol, ond bydd y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar gynnwys y CTRh, er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion Gwynedd.

## 10. CLOI

10.1 Cyflwynir yr adroddiad yma i lunio trosolwg i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn gyntaf i ddiweddaru'r Pwyllgor, ond hefyd rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried os ydynt yn awyddus derbyn adroddiad mwy manwl ar agwedd o waith y Gwasanaeth ar gyfer ei Graffu. Mae'r Adran Amgylchedd yn hapus i ymateb i unrhyw gwestiwn i helpu'r Pwyllgor benderfynu ar y trywydd maent yn awyddus i ddilyn.

---

ATODIAD 1: Adroddiad Pwyllgor Craffu Cymunedau 13 Gorffennaf 2022

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 13 Gorffennaf 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2023/24 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 10 Mai 2023 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2023/24. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Y prif flaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn, oedd:

1 Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus
2 Torri Gwair a Chynnal Tiroedd
3 Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu
= Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
4 Toiledau Cyhoeddus

3. Bu aelodau yn trafod mewn grwpiau llai y prif flaenoriaethau yn ogystal â beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2023/24. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*

- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

4. Yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau, aethpwyd ati i flaenoriaethu eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

5. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar bob achlysur gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer un cyfarfod. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

6. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

7. Ers y gweithdy, derbyniwyd cais gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd) i symud un eitem, sef 'Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd', o'r cyfarfod yma. Gwnaed y cais oherwydd bod y Cabinet yn ystyried mabwysiadu'r Llawlyfr Cynnal Priffyrdd yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2023. Teimlwyd nad oedd yn ystyrlon i'r Pwyllgor graffu'r mater mor agos i'r adeg y rhoddir ystyriaeth iddo gan y Cabinet.

8. Mae'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet wedi awgrymu y gellid symud yr eitem 'Toiledau Cyhoeddus', a raglenwyd yn y gweithdy ar gyfer cyfarfod 22 Chwefror 2024, i gyfarfod 5 Hydref 2023. Byddai hyn yn golygu y byddai pedair eitem i'w graffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref.

9. Awgrymwyd y byddai'n amserol i'r Pwyllgor graffu'r mater yng nghyfarfod mis Chwefror 2024. Byddai'r hyn a fyddai'n cael sylw gan y Pwyllgor yn newid o'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol yn y gweithdy. Gallai'r Pwyllgor graffu:

   - Yr ymateb i ddiffygion diogelwch (Ymateb Categori 1)
   - Perfformiad yn erbyn targedau mesurau perfformiad gwasanaethau cynnal priffyrdd
   - Y rhaglen waith

10. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.

11. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau:**
**(i) ystyried cais yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC;**
**(ii) fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24

| **13/07/2023** |
|---|
| • Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **05/10/2023** |
| • Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni<br>• Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan |
| **30/11/2023** |
| • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol<br>• Rheolaeth yr Arfordir |
| **22/02/2024** |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd<br>• Toiledau Cyhoeddus |
| **18/04/2024** |
| • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu<br>• Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd<br>• Gwasanaeth Edrychiad Stryd |